

Rhif: WG36657



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Mehefin 2019**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r canllaw arfer gorau drafft *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru*.

Datblygwyd hwn fel elfen o raglen ehangach i wella'r drefn o warchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru.

## Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 3 Mehefin 2019. Gallwch ymateb ar-lein, trwy'r e-bost neu drwy'r post.

### Ar-lein

Cwblhewch yr holiadur ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/mae-rheoli-amgylchedd-hanesyddol-morol-cymru>

### E-bost

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

[historicensvironmentleg@llyw.cymru](mailto:historicensvironmentleg@llyw.cymru)

### Post

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi  
Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Caeriw  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

*Polisi Cynllunio Cymru*

<https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru>

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

<https://beta.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol>

**Manylion  
Cysylltu**

Ar gyfer gwybodaeth bellach:

[historicenvironmentleg@llyw.cymru](mailto:historicenvironmentleg@llyw.cymru)

Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi  
Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Caeriw  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ

03000 259 090

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

## Cyflwyniad

Mae'r amgylchedd hanesyddol morol yn rhoi inni ymdeimlad o le ac yn helpu i lunio ein hunaniaeth. Mae traethau ysgubol a chlogwyni digroeso, porthladdoedd diwydiannol ac angorfeydd cysgodol, cyrchfannau glan môr a morlynnoedd llanw i gyd yn cyfrannu at ei gymeriad unigryw. Mae miloedd o flynyddoedd o fasnach, archwilio, amddiffyn, diwydiant a hamdden wedi gadael eu hól yn nyfroedd Cymru ac ar hyd ein harfordir. At ddiben y canllaw hwn, diffinnir yr amgylcheddol hanesyddol morol i olygu'r lleoedd o dan y môr ac yn y parth rhwng y ddau lanw lle mae tystiolaeth o weithgarwch dynol wedi'i chadw. Yn y cyswllt hwn, mae hyn yn golygu olion hanesyddol a geir o dan marc y penllanw.

Mae'r amgylchedd hanesyddol morol yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy lawer o wahanol weithgareddau gan gynnwys twristiaeth, dysgu a gwirfoddoli, ac adfywio ardaloedd arfordirol. Gyda'i gilydd, gall y manteision hyn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol trwy gyrraedd y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<sup>1</sup>

Trwy wella'r drefn o warchod a rheoli amgylchedd hanesyddol morol Cymru, bydd y ddogfen ganllaw, *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* (Atodiad B), yn cyfrannu at y nodau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a 'Cymru o gymunedau cydlynus'. Yn fwy penodol, bydd yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y dangosydd cenedlaethol — 'Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well' — a gyflwynwyd i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant.

Mae'r dystiolaeth o'n gorffennol a gedwir dan y môr ac ar lan y môr yr un mor werthfawr bob tamaid â'r dystiolaeth a gedwir ar dir ac yn haeddu cael ei pharchu a'i gwarchod i'r un graddau. Ond mae'r pwysau ar ein moroedd ac ar ein harfordir yn cynyddu. Daw galwadau o nifer o sectorau sy'n amrywio o gynhyrchu ynni a physgota i dwristiaeth a hamdden. Nid yw'n rhwydd taro'r cydbwysedd rhwng manteision economaidd-gymdeithasol y diwydiannau hyn a'u heffaith bosibl ar yr amgylchedd morol yn ei gyfanrwydd ac mae'n galw am ddull holistaidd o fynd ar drywydd cynllunio morol. Bydd *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn sicrhau bod dull cyson a theg o warchod a rheoli amgylcheddau hanesyddol y môr a'r tir.

Trwy ddeall amgylchedd hanesyddol morol Cymru, pam ei fod yn bwysig a sut y caiff ei warchod, gallwn ystyried effaith ein gweithredoedd a gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut orau i'w reoli'n gynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol morol yn hen ac nid ydynt yn addas i'w diben. Mae canllawiau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r athroniaeth ac arfer cadwraeth mwy modern a gynhwysir yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*<sup>2</sup> yn ofynnol. Mae rheoli a gwneud penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd hanesyddol morol yng

<sup>1</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

<sup>2</sup> Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy [https://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation\\_Principles\\_CY.pdf](https://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf)

ngoleuni'r egwyddorion cadwraeth hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod ei arwyddocâd a'i werthoedd treftadaeth yn cael eu gwarchod neu eu gwella. Bydd Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru yn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol morol ag ydynt i'r amgylchedd hanesyddol ar y tir.

Mae deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd morol wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf hefyd. Mae'r canllawiau newydd yn rhoi trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'i heffaith ar amgylchedd hanesyddol morol Cymru.

Mae'r canllawiau'n nodi'r amcanion a'r polisiau sy'n berthnasol yn benodol i warchod a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol morol yng Nghymru. Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfeiriad at y drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn 2019 a bydd y canllawiau *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn cael eu diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau a gynhwysir yn y cynllun terfynol.

Mae *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn egluro dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â threftadaeth danddwr ac yn cynnig canllawiau arfer gorau ar gyfer ei gwarchod a'i rheoli.

Mae tair rhan i'r canllawiau:

- Mae rhan un yn egluro'r gwahanol elfennau sy'n ymgorffori'r amgylchedd hanesyddol morol a sut y gall ddweud wrthym sut yr oedd pobl yn byw yn y gorffennol. Mae'n nodi rhai o'r bygythiadau y mae'n ei wynebu a hefyd cyfleoedd o ran sut y gellir ei reoli'n gynaliadwy er budd pobl yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae rhan dau'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol eang a'r polisi tuag at dreftadaeth danddwr yng Nghymru gan gynnwys y drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.
- Mae rhan tri yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gyfer pawb sy'n rhan o weithgareddau o dan y dŵr gan gynnwys defnyddwyr y môr, datblygwyd ac awdurdodau cyhoeddus. Mae'n disgrifio'r camau y mae angen eu dilyn i asesu effaith unrhyw weithgaredd ar yr amgylchedd hanesyddol morol.

Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu ar gyfer ystod o awdurdodau cyhoeddus, defnyddwyr y môr a diwydiannau gan gynnwys plymwyr hamdden, archeolegwyr, llongau, pysgodfeydd, carthu, cloddio am agregau, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth.

<b>C1.</b>	<b>A yw rhan un yn nodi'n glir natur yr amgylchedd hanesyddol morol a pham ei fod yn bwysig? Os nad yw, esboniwch sut y gellid gwella ar hyn?</b>
<b>C2.</b>	<b>Er gwaethaf y cyfundrefnau deddfwriaethol gwahanol, a yw'r canllaw yn ei gwneud yn glir bod egwyddorion ein dull o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol yn ddi-dor rhwng tir a môr? Os nad yw, esboniwch sut y gellid gwella ar hyn?</b>

<b>C3.</b>	A yw'r fframwaith penderfynu'n glir ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol morol, fel y'i disgrifir yn rhan tri, i ymgeiswyr ac i benderfynwyr? Os nad yw, esboniwch sut y gellid gwella ar hyn?
<b>C4.</b>	A yw'n briodol bod â mecanweithiau cofrestru a dynodi llongddrylliadau gwarchoddedig i warchod safleoedd llongddrylliadau arwyddocaol? Os nad yw, esboniwch sut y byddech chi'n eu newid ?
<b>C5.</b>	<p>Fe hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai <i>Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru</i> yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Pa effeithiau fyddai yn eich tyb chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lleihau?</p>
<b>C6.</b>	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol defnyddiwch y lle gwag hwn i ddweud wrthym amdanynt.